Cael trafferth darllen y cylchlythyr hwn? Darllenwch ef yn eich porwr.

# electoral administration bulletin




Rhifyn 375 (Cymru) – 26 Mehefin 2024

## Etholiad Cyffredinol Senedd y DU: Atgoffa am y canllawiau a'r gefnogaeth sydd ar gael drwy gydol wythnos yr etholiad

Byddwn yn darparu gwasanaeth cyngor ffôn tu allan i oriau swyddfa
i ddelio gydag ymholiadau gweinyddol brys yn y
cyfnod cyn ac yn syth ar ôl etholiad, ac roeddem yn meddwl
y byddai'n ddefnyddiol eich atgoffa sut y gallwch gysylltu â ni ar y diwrnod pleidleisio a thros y dyddiau dilynol.

**Diwrnod pleidleisio - Dydd Iau 4 Gorffennaf**
Rhwng 6:30am ac 8:00am – ffoniwch 0207 271 0504 neu 07824 464350.

Rhwng 8:00am a 10pm – ffoniwch 0333 103 1929.
Ar ôl 5:30pm ffoniwch 0207 271 0504 neu 07824 464350.

**Dydd Gwener 5 Gorffennaf**
Rhwng 8:30am a 5:30pm – ffoniwch 0333 103 1929 neu 07824 464350.
Ar ôl 5:30pm – ffoniwch 0207 271 0504 neu 07824 464350 ar gyfer ymholiadau brys.

**Dydd Sadwrn 6 Gorffennaf tan Ddydd Llun 8 Gorffennaf**
Rhwng 10:00am a 4:00pm – ffoniwch 0207 271 0504 ar gyfer ymholiadau brys.

**Cefnogaeth gan y Comisiwn Etholiadol**

Rydym yn gwerthfawrogi bod hwn yn gyfnod heriol ac rydym yn ddiolchgar am yr holl waith caled rydych chi a'ch timau yn ei wneud unwaith eto i sicrhau bod etholiad yn cael ei redeg yn dda. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu os gallwn ddarparu unrhyw gefnogaeth bellach, cysylltwch â thîm Cymru.

Y Comisiwn Etholiadol

## Cynnwys

**Etholiad Cyffredinol Senedd y DU: Atgoffa am y canllawiau a'r gefnogaeth sydd ar gael drwy gydol wythnos yr etholiad**

Nodyn i'ch atgoffa o sut i gysylltu â'r Comisiwn i gael canllawiau a chymorth drwy gydol wythnos yr etholiad.

**Etholiad Cyffredinol Senedd y DU: Cefnogi pleidleiswyr i ofyn am gymorth yn yr orsaf bleidleisio**
Gwybodaeth ynghylch yr adnoddau ar gyfer orsafoedd pleidleisio sydd i helpu gwneud y profiad o bleidleisio yn fwy hygyrch, a dolenni atynt.

**Adnoddau gwybodaeth i bleidleiswyr**

Lawrlwythwch adnoddau i rannu negeseuon allweddol gyda phleidleiswyr cyn yr etholiad.

**Rydym yn cyhoeddi Bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'n prif ffyrdd o gyfathrebu gyda Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau blaenorol o Fwletinau Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael yma. Gallwch hefyd danysgrifio i'r Bwletinau Gweinyddu Etholiadol.**

**Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau i aelodau staff yn eich tîm. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.**

## Etholiad Cyffredinol Senedd y DU: Cefnogi pleidleiswyr i ofyn am gymorth yn yr orsaf bleidleisio

Mewn ymateb i ymchwil a gynhaliwyd gennym yn ddiweddar gyda Mencap, rydym wedi creu sticeri ‘Gofynnwch i mi am help’ argraffadwy newydd i staff gorsafoedd pleidleisio i’w gwisgo. Mae’r sticeri hyn yn ei gwneud hi’n glir i bleidleiswyr – yn enwedig y rheiny sydd ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth – yn yr orsaf bleidleisio eu bod yn gallu gofyn cwestiynau am y broses bleidleisio.

Rydym hefyd wedi creu posteri cysylltiedig i annog pleidleiswyr i deimlo’n hyderus i ofyn am help. Mae croeso i chi ddefnyddio’r sticeri a’r posteri hyn yn y gorsafoedd pleidleisio yn eich ardal i helpu gwneud y profiad o bleidleisio yn fwy hygyrch.

Lawrlwythwch y sticeri a’r posteri ‘Gofynnwch i mi am help’ newydd

### Cefndir

Edrychodd ein gwaith gyda Mencap yn fwy agos ar y rhwystrau y mae pobl gydag anableddau dysgu yn eu hwynebu pan maent am fwrw eu pleidlais.Rhwystr clir a brofwyd gan bobl oedd teimlo’n ansicr o’r hyn y dylent ei wneud yn yr orsaf bleidleisio, a dim gwybod sut i ganfod yr ateb. Mae pobl ifanc sy’n gysylltiedig â’n prosiectau llais ieuenctid hefyd wedi dweud yr un peth wrthym. Yr adnoddau hyn yw canlyniad cyntaf yr ymchwil hwnnw, a byddwn yn datblygu rhagor o gymorth i bleidleiswyr sydd ag anableddau dysgu yn ystod y misoedd sydd i ddod.

## Adnoddau gwybodaeth i bleidleiswyr wedi’u cyhoeddi ar gyfer etholiad cyffredinol Senedd y DU

Rydym wedi cyhoeddi set diweddaredig o’n hadnoddau gwybodaeth i bleidleiswyr y gallwch eu defnyddio i rannu negeseuon allweddol ynghylch etholiad cyffredinol y DU sydd i ddod.

Mae’r adnoddau hyn yn cynnwys graffeg ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol a phosteri, a’u bwriad yw codi ymwybyddiaeth o’r canlynol:

- ffyrdd i bleidleisio
- pan fydd yr etholiad yn cael ei gynnal
- dod o hyd i’ch man pleidleisio
- cael help yn y man pleidleisio
- beth i’w wneud os oes angen help i bleidleisio arnoch
- pwy yw rhifwyr
- oriau agor y man pleidleisio
- pethau i’w cofio os ydych yn pleidleisio’n bersonol

Lawrlwytho adnoddau gwybodaeth i bleidleiswyr

Mae’r adnoddau hyn yn cynnwys posteri, taflenni, graffeg ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol a phostiadau templed ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol.

**Os caiff Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol ei benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â’r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk**

**Rydym yn anfon y cylchlythyr yma atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy’n berthnasol i chi. Mae’r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sydd â’i sail yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a’ch manylion cyswllt yn unol â’r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth diogelu data y DU, fel yr amlinellir yn ein hysbysiad preifatrwydd (https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd)**

**Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddad-danysgrifio unrhyw bryd.**

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Llawr 3, Tŷ James William
9 Plas yr Amgueddfa, Caerdydd
CF10 3BD
Ffôn: 0333 103 1929
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
**www.comisiwnetholiadol.org.uk**
© Y Comisiwn Etholiadol 2024